Prosiect Cydweithrediol

Enw: Rebecca Sian Timbrell

Rhif Myfyrwr: 1800376

Cwrs: BA Perfformio

Enw Modiwl: Prosiect Cydweithrediol

Côd Y Modiwl: ADPB5010C

DEUNYDD CREADIGOL

YMARFERION YSGRIFENNU

YSBRIDOLIAETH / TUDALEN WAG

Yn yr wythnosau cyntaf, wnaethom ni cael tua 30 eiliad – 1 munud I siarad amdano beth sy'n wneud ni'n grac. Yn ystod yr ymarfer yma, mi wnes I sylwi gallwn ni defnyddio pethau rydym yn gweud pob dydd pan rydym yn ysgrifennu golygfa:





Gan defnyddio'r gwaith wnaethom ni wneud ar gyfer ysgrifennu sgriptiau, wnes I defnyddio llun gan David Wilson I ysbridoli golygfa/monolog.

Monolog Procsiet Cydweithrediol

Opsiynau:

- Fenyw sydd wedi archebu wyliau am yr penwythnos ar AirBnb
- Cymeriad yn cofio nôl am eu cymydog

Wilson, D (2009)

(Cymeriad yn edrych trwyddo albwm lluniau mae hi wedi ffindo o flynyddoedd yn ôl. Mae'r cymeriad yn cofio nôl i'r fenyw oedd yn byw dwrs nesaf.)

Tŷ Doris oedd hwn – oedd hi'n fyw drws nesaf. Oedd Doris yn mental. Like proper batshit. Odd hi'n absolutely lysh, like Mamgu style - dal yn fenyw mental though.
Pob wythnos, oedd Doris yn coginio Fwyd Dydd Sul, a ni'n siarad hardcore roast – tato; mashed, roast, boiled, pîs a mushy pîs, moron; pob fath o siâpau wahanol, ciw iâr, cig eidion a cig oen, pigs in blankets, stuffing, bresych, pedwar Yorkshire Puddings yr un – the whole lot. Roedd hi'n coginio am tua dauddeg pobol o'r gymuned pob wythnos hefyd, a rhywsut doedd byth unrhyw bwyd dros ben. Tŷ Doris oedd yr lle i fod.
Oedd Doris yn byw efo naw cath, pob un o'r enw Delilah. Odd hi'n convinced bod Tom Jones yn eu soulmate. Oedd gen hi posteri a lluniau o Tom Jones pobman yn y tŷ – fy llun ffefryn oedd yr llun o Tom Jones, Priscilla a Elvis Presely, ond gyda llun o wyneb Doris wedi eu sticio arno wyneb Priscilla. A obviously, odd hi di torri Elvis mas.
Ar ôl yr storm yn 2009, wnaeth Doris dod i fyw efo ni tan daeth yr arian insurance drwyddo. Ar ôl hynny, wnaeth hi prynnu campervan a trafeuli rownd yr Byd yn dilyn Tom Jones am phob cyngerdd a pennod o '*The Voice*'.
Nid oedd Doris yn gael unrhyw teulu ar ôl, felly ar ôl iddo hi marw, ni wnaeth rheoli'r angladd. O 'dy ni strict instructions;

1. Rhaid i'r weinidog edrych fel Tom Jones
2. Neb o'r enw Linda 'na
3. Rhaid i'r wasanaeth orffen gyda 'She's a Lady'

Fel y ddwedais, batshit.

Y BYD A'R CYMERIADAU – SUT I GREU CYMERIAD

Pa fath o gymeriadau byddwch chi'n cwrdd â yn yr Eisteddfod? Wnaethom ni creu cymeriad wreiddiol gan defnyddio templed Llinos:



Character questions

1) Beth yw enw eich cymeriad?
Mari Matthews
2) Ble mae nhw'n byw a gyda phwy?
(Swiss valley) Llanelli, Carmarthenshire, gyda'i cariad
3) Beth yw oedran nhw?
28
4) Pryd mae eu penblwydd?
Mai 30th - Gemini
5) Oes partner/gwr/gwraig/cariad gyda nhw? Ac os felly beth yw eu henwau?
Cariad - John Johnson o Caerdydd
6) Oes plant neu annifeiliaid anwes gyda nhw?
Dau cath - Jeremy a Jemima
7) Sut mae nhw'n treulio eu dyddiau? (ysgol, gwaith, wedi ymddeol)
Gweithio yn yr Finance Dep am CSG
8) Ble wnaethon nhw dyfu i fyny?
Swiss valley, posh part Llanelli.
9) Oes brawd neu chwaer gyda nhw?
Nagoes - says it all
10) Beth yw eu hoff atgof o blentyndod?
Pryd wnaeth Mam a Dad prynnu hi car
11) Bety yw eu atgof gwaethaf o blentyndod?
Pryd wnaeth Mam forcio hi i gystadlu yn yr Eisteddfod
12) Beth yw'r peth mwyaf sydd erioed wedi digwydd iddo nhw?
Cael eu degree yn Finance o Gaerdydd
13) Beth mae nhw'n wneud pan mae nhw ar eu pen eu hun.
Yoga, Zumba a self-care routines, coffee efo ffrindiau
14) Beth yw ei hoff gân?
Jump- Girls Aloud
15) Oes gyda nhw unrhyw gyflyrau meddygol?
Na



16) Oes gyda nhw unrhyw hidden talents?
Mae hi'n gallu wneud y peth na efo'i tafod.
17) Beth mae nhw ofn?
Protests a public demonstrations
18) Rhannwch un o'u cyfrinachau.
Wnaeth hi pleidleisio leave
19) Be sydd yn eu poced?
Hand sanitizer a'i ffôn
20) Pwy yw eu harwr?
Ffon Mam
21) Beth sy'n eu gwneud yn grac?
Sôn am Annibyniaeth Cymru
22) Beth yw eu hoff ymadrodd/idiom/ddywediad?
live, laugh, love
23) Beth yw'r peth gorau all ddigwydd iddyn nhw?
Ennill yr lottery a prynnu tŷ yn Spain
24) Beth yw'r peth gwaethaf all ddigwydd iddyn nhw?
Colli pobl agos
25) Beth mae nhw'n wneud heno?
Coginio a glanhau'r tŷ a self care

Beth mae nhw eisiau?

Dechrau
↓
Canol
↓
Diwedd



Eisiau Ennill y lottery

Dechrau
· Gadael gwaith yn breuddwydio amdano ennill yr lottery
· Sôn amdano'r person i gyd sy'n wneud i Mari casau gwaith
· Falle mae boss hi wedi wedi ofyn am e-bostio i gyd Mari i fod yng Nghymraeg er es Mari i ysgol gyfrwng Cymraeg.

Canol
· Dyw hi ddim eisiau siarad Cymraeg
→ Sôn am trauma Eisteddfod
→ Sôn am experience ysgol
· Dyw hi jyst eisiau ennill yr lottery a symud i Sbaen.

Iaith
- cwmpo mas gyda'i hun am siarad Cymraeg
- siarad efo rhywun arall sy'n siarad Cymraeg

CUD-DESTUN YR SIOE

Wnaethom ni wedyn trafod beth mae Cymru a Chymreictod yn olygy I ni, I geisio penderfynnu ar cud-destun yr sioe. Unwaith wnaethom ni penderfynnu ar yr Eisteddfod, wnaethom ni trafod pethau wahanol rydym yn dod ar draws yn yr Eisteddfod, a sut mae ein dealltwriaeth o pethau fel Cymry ifanc yn gallu gyrru ein sioe.

















YCHWANEGU WYBODAETH I'R GYMERIAD YN CUD-DESTUN Y SIOE:

Yn ystod sgwrs efo Llinos a'r ddosbarth amdano teimladau yr gymeriad ynglin â Chymerictod, mi wnes I cynnig yr farn '**MAE DIM UN FFORDD I FOD YN GYMRAEG – MAE'N DEIMLAD YN LLE TRWYDDED**'. Wnaeth hon ddechrau sgwrs amdano'r sioe, a pa themâu allwn ni ddarganfod. Dyma dechreuoedd yr prif thema yn ein sioe - 'Does dim yn ffordd I fod yn Gymraeg'. Ar ôl hynny, mi wnes I creu syniadau am yr cymeriad yn yr cud-destun o Yr Eisteddfod.



Ar ôl creu ein cymeriad yn cud-destun yr Eisteddfod, wnaethom ni ysgrifennu ein monolog cyntaf yn defnyddio'r wybodaeth yma:

Mari ar y ffôn i Mam. Mae Mari yn cerdded trwyddo'r dre gyda'i AirPods mewn.

Dwi'n casau'r jobyn 'ma. Dwi wastad yn teimlo fy mod yn ffeitio efo'r dynion 'ma i fy syniadau hyd yn oed cael eu glywed. Ti'n gwybod os oes modd i transferro i rhywle arall? Suppose bydd hwnna bach yn annodd gyda policiau'r cyngor… Dwi jyst constantly môr, like, depressed. Fi'n serious! Fi'n depressed right now a gyd ti'n gallu wneud yw werthin? Oce, yeah fair enough, sai'n depressed. Mae John yn iawn diolch, a Jeremy a Jemima, jyst bach yn annoying sometimes – yeah, a'r cu hefyd.
Anyway, siwd ma Dad? Ah Mam, does dim pwynt i becso amdanai, mae gen i bywyd perffaith, heblaw am yr jobyn 'ma. I just don't get it, wnes i enill Prom Queen a'r most likely i ennill y lottery. A be fi dy neud yn lle? Fynd i Prifysgol, cael First a cwmpo mewn i'r 9-5 ma.
Ti byth yn meddwl amdano ennill y lottery? Pob nos cyn i fy mynd i gysgu, dwi'n manifestio i ennill can miliwn. Yeah, fi'n gwybod fo can miliwn yn eithau lot… oce yeah maybe a little unrealistic, ond dychmygwch! Byddai'n hapus gyda pumdeg miliwn, unrhyw faint o arian i orffen y job ma a symud i Sbaen. Proper villa, 'da pwll nofio, ty fewn a ty fas, a spa fach, sauna a tennis court…
No offence Mam, sai eisiau gweithio 'dy ti, yn enwedig yn yr Eisteddfod. Be byddai'n neud? Siarad 'dy pobol trwy'r dydd. Yng Ngymraeg hefyd? No thanks. Yeah, dwi'n gwybod fod rhaid i mi siarad Cymraeg pryd rwy'n gallu, ond dwi literally ddim ond yn siarad Cymraeg i ti a Dad. S'dim pwynt i ddysgu John, mae ganddo fe'r thickest Northen accent dwi eriod di clywed. Mae'n swyno'n offensive pryd mae o'n trial siarad Cymraeg.
Falle byddai jyst yn prynnu tocyn heno, allwch prynnu un hefyd? Byddai'n hapus i neud 60/40 split os wyt ti'n ennill. Anyway, dwi jyst di cyrraedd adre nawr, allai ffonio ti ar ôl? Mae gen i presentation i neud erbyn fory. Oce, yeah sori, mae gen i *gyflwyniad* i neud erbyn fory. Caru ti hefyd, tara tara. Prynna'r tocyn!

CREU CYMERIAD 2:

Creu cymeriad arall, a wnaeth datblygu mewn I Bethan Jen yn yr sioe terfynnol. Wnes I ysgrifennu monolog ar gyfer y cymeriad yma, a wnaeth Ela wedyn cymryd drosodd:

31 May 2023 at 10:32

Mari ar y ffôn yn cymryd orders am coffi's.

Hiya Angharad, yeah vanilla oat milk iced latte gyda pedwar ice cubes, ia? Oh right, nai mynd nôl nawr i rho ice cube extra i mewn. Unrhywbeth arall? Na, oce te. Hwyl.

Mae'r jobyn ma yn fucking grêt! Ti'n gallu meddwl am unrhyw well na hwn? Yn ôl vanilla oat milk iced latte gyda pump ice cube i Angharad fucking Mair! Am yr pedwerydd tro!
Dwi methu meddwl am unrhywbeth wath na fod nôl yn yr swyddfa 'na - pob dydd, trwy'r dydd, yn mynd i waith yn yr tywyllwch ac yn cyraedd adre yn yr tywyllwch... ond dyma fywyd!! Angharad fucking Mair.

Pryd rwy'n feddwl amdano'r ffaith wnes i astudio am pum mlynedd yn Prifysgol, a weithio am deg flwyddyn fel Solicitor, dwi'n ffindo fe mor HILARIOUS dwi nawr yn weithio fel Runner am S4C... a'r penderfyniad cywyr right? Dim ots, dwi yma nawr! Yn weithio 45 awr yr wythnos yn ôl coffi's a brechdannau am yr stars!

Falle byddai'n rhoi crack ar gyflwyno ar sgrin - ddyle fe ddim i fod yn annodd? Surely? A mae gen i coffi order more syml! Ddim fel yr fucking vanilla oat milk iced lattes ma.

Wedyn, ar ôl flynyddoedd o digwyddiadau, byddai'n prynnu tŷ fach yn ganol y wlad - lle fydd neb yn gallu dilyn, ffindio neu ffonio fi - proper hermit mode. Dwi yn poeni Bach am yr posibilrwydd fyddai jyst yn runner though. I mean, sdim gen i unrhyw profiad yn TV a ffilm... rwy'n gallu helpu efo'r ochr cyfreithiol, ond... oh byddai'n fine!!

Angharad yn galw ar y ffôn eto

Fuck sakes. Hiya Angharad! Fi jyst ar y Ffordd nôl nawr. Mae gen i vanilla oat milk iced latte gyda pump ice cubes? Oh right, oce. Byddai'n mynd nôl nawr. Fucking cyfryngus.

DATBLYGU CYMERIADIAU ARALL:

Wnes I ysgrifennu a datblygu monolog Linda, a wnaeth gael eu ysgrifennu gan Anna yn wreiddiol, yn defnyddio syniadau Gwenan.

Linda yn torri ar draws yr plant yn canu So Long, Farewell o The Sound of Music (Anna efo geiriau Cymraeg)

Linda: Reit plantos, diwrnod brysur efo ni fory!

Cyntaf ar yr agenda;

Merdydd – Telyn – hanner awr wedi wyth

Mabli – Clocsio – Naw

Mabon – Dawnsio Gwerin – Naw – efo Dad

Olwen – Llefari – Deg

Branwen – unawd – unarddeg

Branwen: Caniatad i siarad?

Linda: Granted.

Branwen: I'm not doing it.

Linda: Haha – dim jôcs heddi plis Branwen.

(*Saib hir*)

TI'N FUCKIN BE??? ***(Clirio gwddwg)*** TI'N BETH?? Ti'n tynnu allan? Pam?!

Branwen: Dwi ddim eisiau neud o.

Linda: Ti'n trial rhoi heart attack i fi?! Mae'r Eisteddfod yn y bore! Be dwi'n mynd i neud nawr? ***(Branwen yn syllu'n blank arni)*** (***Yn gasio am aer***) Branwen... dwi... methu... anadlu... STEVE! STEVE MAE ANGEN CWPANED O DE ARNAI! For God sake's Linda, pull yourself together. (***Yn cymryd anadl dwfn. Yn gwenu yn fawr iawn***) Sori am rhegu pwmpen, dwi'n mynd am wâc am 10 munud. Cer nôl i ymarfer.

Plant yn ailddechrau So Long, Farewell o The Sound of Music gan cerdded off. Mae Linda yn dechrau cerdded o gwmpas y maes. Mae hi'n cerdded yn didrywydd, yn cyferiad y Gin Bar.

One, tŵ, thrî, ffôr, ffaif...Pob blwyddyn dwi'n rhoi fy nghalon i'r steddfod 'ma. Teulu'r Jonesys...ni yw Von Trapps Caerdydd. Me being Maria. A sut ma'r Von Trapps fod gweithio heb Liesl? Beth ydw i'n mynd i neud nawr gydag un plentyn yn pallu gwneud yr Eisteddfod rhagor!? This is her God given gift. A right of passage. Rhaid bod o'n...be ydy arddegwyr yn cael? Phase. 'Na ni, phase. Bydd Branwen bach yn newid ei feddwl. Last minute nerves! O ni wastad yn gael nhw.

I mean, be di hi'n meddwl bydd hi'n neud yn lle? Galifantio ar faes yr Eisteddfod? I think not. Ac os dwi'n clywed un sôn arall am gadael hi mynd i Faes C a'i drwy'r tô. Nid blwmin ffestifal ydy'r 'Steddfod. O na. Ni yma i ennill, dyna be sy'n bwysig.

(Cyrraedd y gin bar)

Os di Branwen yn tynnu allan bydd blydi Ceridwen efo'i thrwyn yn y drws. Branwen 'di unig siawns fi o guro hi! Mae'r lleill yn trio... bechod arnyn nhw. Dwi bron yn gallu gweld hi nawr... Linda Jones, ennillwr yr Unawd. Sori, Branwen Jones. Beth ydw i fod gwneud? Manifest it, Linda. Manifest it.

Unwaith wnaeth yr gymeriadau cael eu chreu, wnaethom ni wedyn creu golygfeydd rhwngddo nhw:

DRAFT 1 – GOLYGFA MARI, MAM MARI A CADI:

Mari a'i ffrind Cadi yn eistedd yn Starbucks, Llanelli. Mae'r ddwy ohonno nhw yn catcho lan efo'r digwyddiadau ddiwedderaf. Yr ddwy ohonno nhw yn scrollio ar eu ffôn.

Cadi: Ti 'di weld fod yr Eisteddfod ar diwedd y mis?

Mari: (ochenaid) Do.

Cadi: Ti am fynd?

Mari: Absolutey not.

Cadi: Pam?

Mari: Cadi, nes i gymryd adduned yn flwyddyn 9 i fyth mynd i'r Eisteddfod 'to. Talk about trauma.

Cadi: Oh, come on! Allwn ni fynd i farnu'r cystadleuwyr gyda llyfrau nodiadau a pencils ni to, fel o ni'n neud yn flwyddyn 5. Byddwn ni'n cael laff!

Mari: Genuinely, dwi methu meddwl am unrhywbeth 'wath. Like I get it, ond i fod yn onest, I just can't be arsed. I trafeuli lan i'r Gogs am ddiwrnod neu ddau i smalio bo ni'n CARU'R Eisteddfod. Come on mun.

Cadi: Allwn ni gael hwyl though!

Mari: Ti ddim yn deall. O ni wastad rhaid fynd i'r Eisteddfod pob flwyddyn, yn cuddio yn gysgod fy Mam. Cyfarwyddwyr yr Eisteddfod. I mean, come on. Dwi'n hapus efo fywyd fi nawr, gyda John a'r cu, yn weithio yn y gyngor a byth really yn siarad Cymraeg. Mae o fel burden arnai, dwi byth yn gallu dianc. Pobman dwi'n i fynd – 'ife Sian yw dy Fam?' A; 'Mae Mam ti wedi wneud waith arbennig i Gymry.' 'Bydd ganddo Cymry dim byd os oedd e ddim am dy Fam – mae hi wedi rhoi gobaith iddo ni eto.' 'Ti am weld fy tatw o wyneb dy Fam?' Pisses me off.
Bydd well gen i bwyta pysgod sy dy fod mas yn yr haul am tair wythnos. I'd rather have the shits than go to the Eisteddfod.

Mari yn gael galwad ffôn o'i Fam.

Mari: Sori, aros funud Cads.

Hiya Mam, ti'n alright? Beth sy'n bod? Pam chi'n grio?

Ar ôl eiliad neu ddwy, mae Mari yn rhoi yr galwad ar 'loud speaker'.

Sian: Mari, dwi mor stressed. Mae fy assistant wedi tynnu allan o'r Eisteddfod – gyda jyst dros wythnos i fynd.

Mari: pam? (Yn chwerthyn) ife oherwydd ti?

Sian: Paid, Mari. Wnes babi hi ddod mis yn gynnar – mae'r babi yn fine ond dwi'n fucked nawr.

Mari: Mam!

Sian: Sori am rhegu, fi jyst mor stressed.

Mari: Paid becso, dwi'n siwr fod rhywun arall ar gael.

Saib

Sian: Beth i ti'n neud yr wythnos yna?

Mari: Paid hyd yn oed gofyn.

Sian: Oh Mari, plis! Bydd rhaid i mi gael assistant, a allwn ni wario'r wythnos gydai'n gilydd! Plis, plis, plis, plis, plis, plis?

Mari: Na, Mam.

Sian: Oh Mari, plis. Dwi'n addo byddai ddim yn ormod, byddai ddim yn gofyn i ti beth i wneud. Byddai jyst eisiau bach o help gyda pethau.

Mari: Na.

Sian: Dim ond wythnos. Na gyd dwi'n ofyn am. (*Yn dechrau crio*) Wythnos gyda dy Fam, ydy hwnna môr wael?

Saib

Sian: (*crio yn fwy)* Mari – plis, dwi mor fucking stressed. Paid fod yn hunanol! *(Saib)* Sori, odd hwnna bach yn uncalled for.

Saib. Mae Sian yn sylweddoli bod ei ymdrechion ddim yn weithio. Sian yn dechrau goranadlu ac yn troi yn hysterig.

Sian: MARI (*gasps*) DWI METHU (*gasps*) ANADLU! Dwi'n meddwl bo fi'n cael panic attack!!! Dwi methu neud hwn hebddo ti. Mark, plis.

Mari: Alright, Mam. Fine. Byddai'n gael fy nhalu?

Sian: Wel...

Mari: Paid becso, byddai'n gymryd gwyliau o waith. Fi dy Cadi, dwi mynd nawr.

Sian: Fi'n caru ti galon – sooo much.

Mari: Hwyl, Mam.

Mari yn hongian i fyny. Bach o tensiwn yn yr awyr cyn i Cadi torri hwn.

Cadi: (yn chwerthyn) Huh. Mae hwnna'n ddoniol nag yw e!

DRAFT TERFYNNOL YR GOLYGFA:

Golygfa 1

Mari a'i ffrind Cadi yn eistedd yn Starbucks, Llanelli. Mae'r ddwy ohonno nhw yn catcho lan efo'r digwyddiadau ddiweddaraf. Yr ddwy ohonno nhw yn scrollio ar eu ffôn.

~~Glenys:~~ ~~Starbucks Llanelli~~

Cadi: Do you fancy the Steddfod this year?

Mari: Absolutey not.

Cadi: Come on! We haven't been in ages, Mari!

Mari: Cadi, I took a vow in year 8 that I would never go to the Eisteddfod again. Talk about trauma.

Cadi: Oh, come on - it'll be a laugh! And it's only down the road this year.

Mari: Genuinely, I can't think of anything worse. Like I get it, but to be honest I just can't be arsed. To spend a week or two in a shitty field pretending that we LOVE the Eisteddfod while singing Cumbaya round a campfire. Come on mun – bloody waste of time and money.

Cadi: It's not like that and you know that. It'll be fun!

Mari: Cadi - I was always forced to go every year, and to top it off I was with the Director of the Eisteddfod. Everywhere I go – 'is Sian your mother?' And 'Your mother has done wonders for Wales.' 'Wales wouldn't have anything if it wasn't for your mother – she has given the people of Wales hope again.' And my personal favourite; 'do you want to see my tattoo of your mothers face?'. I'd honestly rather eat a piece of fish that's been left out in the sun for three weeks. I would rather have the shits than go to the Eisteddfod.

Mari yn gael galwad ffôn o'i Fam.

Mari: Two secs, Cadi.

Hiya Mam. Mam? No, you're covering the mic. Move your finger. WHAT? WHEN? Ugh, sori –beth? pryd? Ti'n oce? Mam, move your finger! (*saib*) Mam, ti methu meddwl am yr Steddfod nawr – ti jyst 'di cael crash 'mun! Byddai'n dreifio draw nawr. (*Saib*) Plis paid meddwl amdana'r Steddfod eto Mam, I'm sure Mr Urdd won't have a breakdown os ti ddim yna!

Mari yn rhoi Sian ar speaker phone i Cadi gael glywed

Sian: Gallet ti cymryd drosodd!?

Mari: Oh HA-HA, ti'n hilair Mam. Yep, very funny.

Sian: Dwi ddim yn jocian. Byddet ti'n iawn, gaddo!

Mari: NA! There's nothing I wouldn't love more than to be stuck in a field for a week surrounded by a cult of welshies shoving "cartref" pillows and "cariad" mugs in my face!

Sian: Dyw o ddim fel hynna, a ti'n gwybod 'na!

Mari: Sai'n mynd Mam.

Sian: (*crio)* Mari – plis, dwi mor fucking stressed. Paid fod yn hunanol!

Mari: Bit harsh, Mam.

Saib. Mae Sian yn sylweddoli bod ei ymdrechion ddim yn weithio. Sian yn dechrau goranadlu ac yn troi yn hysterig.

Sian: MARI (*gasps*) DWI METHU (*gasps*) ANADLU! Dwi'n meddwl bo fi'n cael panic attack!!! Dwi methu neud hwn hebddo ti. Mari, plis.

Mari: Nagoes rhywun arall yn rhydd?

Sian: Na, ma Helen ar annual leave, mae Mike newydd cael ffycin babi a ma' Llyr wedi cael jobyn newydd.

Mari: Mam, gofyna i Helen.

Sian: (*yn goranadlu eto*) DWI'N CASAU HELEN! Dwi ddim am i hi gwybod bod fi methu wneud o.

Mari: Oh Mam, come on. Nid bai chi yw e. Bydd hi'n deall.

Sian: Na. Dwi ddim yn gofyn i hi... PLIS MARI!? Mae'n rhaid i TI gymryd dros.

Mari: Faint o weithiau ma' rhaid i mi ddweud, Mam? Na!

Sian: Fydd popeth yn ei le, s'dim rhaid i ti neud unrhywbeth – just troi fyny a gwenu! Nai dalu ti, nai neud unrhywbeth!!!!

Mari: Alright, Mam, alright. (*Saib*) I'm with Cadi - I'm going now.

Sian: Fi'n caru ti galon – sooo much. Dwed helo i Cadi wrthai!

Cadi: Haia, Mrs Davies!

Mari: Chi dal angen i mi ddod i'r ysbysty?

Sian: Na fi'n oce diolch cariad, byddai dim ond yn A&E am tua awr arall. Wnath yr paramedics dweud jyst bach o whiplash – rhaid i mi osgoi stress inducing activities am dau wythnos – apparently mae'r Eisteddfod yn cyfri. Anyway, amser i ti mynd nôl 'na, ey?! Haha. Diolch!

Mari yn hongian i fyny.

Cadi: *(Confused)* What happened?

Mari: She was hit by a Toyota Yaris.

WYTHNOS R&D - CREU SIWRNE Y SIOE

Ymchwilio sut I creu siwrne cymeriad / sioe:





Vogler, C (1998)

Penderfynnu ar cymeriadau terfynnol, a deall bwriad pob cymeriad:







Mari
Starbucks
Gwrdd a Linda
Seremoni
Manon Makeup
can ola
Golygfeydd
Mam Daf





Cwestiynau.
Beth mae Mari yn dadysgu o G + N / Erin / Mam Daf / Dyffrig / Linda / Manon Make-Up / Beca Mai amdano Cymreictod /
+ G + N:
Wrth i G + N ymroymo mwyafrif o'i bywydau yn helpi efo'r Eisteddfod / unrhyw digwyddiadau i'w gymuned Cymraeg, Mae cnymreictod yn aros gyda chi trwy gydol dy oes.
+ Erin:
Sut mae Cymreictod yn bodoli yn wahanol i arddegwyr Cymraeg a Sut Mae hwn yn debyg i plentyndod hi - neu beth oedd hi'n golli mas arno?
+ Mam Daf:
Pwysigrwydd gymuned - dedydd ar goll?
+ Dyffrig:



Almost extreme opposite o Mari - Sut Mae Cymreictod yn gallu wahanu pobol?
+ Linda:
Pwysigrwydd Cymreictod a'r iaith Gymraeg yw i rhai pobol - a sut Mae'r gymuned yma yn gweithio i rhai pobol?
+ Manon Make-Up:
Lle bynnag Mae pobol yn symud i, mae eich Cymreictod dal yn bodoli
+ Beca Mai (Bethan Jen?):
Cyfnyngau yng Nhymraeg? Sut mae adloniant yn bwysig, beth bynnag yr iaith - Falle Mae Mari wedi osgoi adloniant Cymraeg a wedi tyfu lan efo bya Saesneg?
Beth Mae Mari yn adysgu o G + N / Erin / Mam Daf / Dyffrig / Linda / Manon - Make-up / Beca Mai amdano'r Eisteddfod?



+ G + N:
Y pwysigrwydd o helpu'r gymuned a Sut mae pobol yn tyfu lan yn helpu yma, ers cystadlu - sut Mae'r pwysigrwydd yn aros gyda chi.
+ Erin:
Sut Mae pobol ifanc yn mwynhau ac yn gymaethau trwy'r gyfnwng gymraeg.
+ Mam Daf:
Sut Mae'r Eisteddfod yn addas i'r teulu - Mam Daf yn cefnogi ac yn mwynhau'r Eisteddfod hefyd
+ Dyffrig:
Sut Mae'r Eisteddfod yn gallu dod a phobol at ei gilydd, beth bynnag regardless of how
+ Linda:
Pwysigrwydd yr eisteddfod i rhai pobol - yn pwysau Mae mae pobol yn
+ Manon Make-up:
Sut Mae'r Eisteddfod yn dod a phobol

Fy nhro cyntaf yn gwylio'r Seremoni Cadeirio:

BBC Cymru (2011)

Themâu pwysig:



Penderfynnu ar strwythyr yr sioe:









DATBLYGU GOLYGFEYDD

Wnes I hefyd datblygu golygfa a wnaeth Glain ysgrifennu yn wreiddiol.

DRAFFT TERFYNNOL LINDA, MARI, DYFRIG:

Golygfa 8

Sefa MARI wrth y babell coffi yn gafael mewn shortbread. LINDA yn ymddangos yn sychu ei thrwyn yn swnllyd. Mae hi'n syllu ar MARI, ac yn ei astudio gan edrych fyny a lawr.

Mari: Allai helpu?

15

Linda: Just waw-ee, Sian - da chi'n edrych yn ifanc! Be di'ch skin care rountine chi?

Saib wrth iddi hi sylwi nid Mam Mari yw Mari

(Linda): Oh mam fach! Lle ma dy Fam?

Mari: Odd Mam mewn damwain car so dwi'n styc yn y shithole 'ma yn rhedeg yr wyl.

Linda: Esgusodwch fi?!?! Be wedes ti?

Mari: (*gyda geg llawn shortbread*) Hmm? Oh! Wedes i fod Mam wedi gael ddamwain car so dwi'n stuck yn yr Ssss...steddfod yn rhedeg yr wyl.

Linda: Hmm... Anyway, ma' gen i broblemau mwy difrifol i boeni amdano. Mae fy merch, Branwen, mae'n mynd trwy rhyw... gyfnod.... ac yn gwrthod cystadlu, ishe mynd i'r hen Faes C afiach na ma hi! Meddwl os fyswch eich Fam, neu ti, yn medru sortio hyn?

Mari: Sortio be?

Linda: Yr ffaith fod merch i ddim eisiau gystadlu (?)

Mari: Oh reit, dwi'n deall. Wel yn anffodus...?

Linda: Mrs Jones. Mrs Linda Jones (?)

Mari: Yn anffodus, Linda, sdim ots gen i os ma' dy ferch ddim am gystadlu. Dwi ddim really yn baio hi. Unrhywbeth actually bwysig allai helpi ti gyda?

Linda: Lle est ti i ysgol?

Mari: Sori?

Linda: Lle est ti i ysgol?

Mari: Uhh, dwi ddim yn siwr fod hwnna'n bwysig, ydy o?

Linda: Na, ti'n iawn. Dydy o ddim yn bwysig – mae dy Gymraeg di yn ofnadwy beth bynnag.

Mari: Diolch i ti, Linda ond –

Linda: Diolch i CHI. CHI! Nag wyt ti'n parchu pobol neu beth?

Mari: Os ma nhw methu parchu fi then apparently not?

Linda: Pwy allai siarad efo? I gwyno am dy agwedd di.

Dyfrig yn ymddangos ac yn torri ar ddraws yr dadl

Dyfrig: Dyfrig Ap Morgan dwi. Wyddoch chi lle mar sied defaid yma?

Mari: Ni di gael yr sgwrs ma'n barod. DIM DEFAID! (I'w hun) Nes I anghofio ordero nhw.

Linda: Waw – dim parch o gwbwl. Rhaid i mi siarad efo rhywun yn uwch 'na ti, NAWR!

Dyfrig: Ie, licsen i siarad gyda rhywun hefyd. Blydi pathetic fod ddim defaid yma.

Mari: Reit oce, no offence ond ma'r ddau ohonoch chi methu siarad gyda unrhywun arall heblaw am fi. Fi yw Rheolydd yr Steddfod am nawr, apparently.

Linda Dwi methu credu ma'r Steddfod wedi gadael unrhyw Sion, Dic neu Harri Saesneg i fod yn gyfrifol? Un sy'n camtreiglio, a siwr methu pwyntio allan Myrddin Ap Dafydd os fydd e'n rhedeg o gwmps y maes yn noeth lymun!

Mari: Linda, respectfully, plis cau dy geg?

Linda yn gaspio'n uchel. Linda yn gweud ei anadl yn gweud pethau fel 'mae'r Steddfod yn doomed etc'

Dyfrig: Wel... Na ni te.

Mari: Anyway, gyda'r defaid thing 'ma –

Dyfrig: O, wnes i anghofio am hwnna!

Mari: (*o dan ei anadl – yn ochneidio*) Oh..

Dyfrig: Rhaid fynd, dwi yma am rhywbeth pwysig hefyd!

Mari: O ie, be sy?

Glain yn rhedeg fewn yn sgrechian, bron a chrio.

Linda: Beth sy'n bod?!

Glain: (*yn dal ei anadl*) Mae'r... Mae'r...

Mari: Oh, come on mun!

Glain: MAE'R GLEFYDD AR GOLL!

17

Linda: (gasp) BETH?! Mari! Be ti mynd i neud Mari?!

Saib. Bethan, Dyfrig a Linda yn syllu ar Mari a aros am ymateb.

Mari: Beth yw clefydd?

Linda: RHAID I TI FOD MOR BLYDI TWP! O, sori, gadewch i mi gyfieithu – (yn araf) rhaid... i...ti....ffindo'r... clefydd.

<u>YSGRIFENNU GOLYGFA CERRIG YR ORSEDD.</u>

DRAFFT 1:

Linda a'r Wasg yn dilyn Mari allan o'r pafiliwn. Yn gweddi dros eu gilydd.

Linda: Dyna hi!

Wasg 1: Mari! Mari! Allwn ni jyst gofyn cwestiynau yn gloi?

Wasg 2: Lle mae'r glefydd, Mari?

Linda: Mari! Ddim ond gofyn cwestiynau ma nhw am wneud.

Wasg 1: Pam wnes ti dwyn yr clefydd, Mari?

Wasg 2: Pam wyt ti'n ceisio hijackio'r Steddfod?

Linda: Rhaid i ni gael ateb, Mari. Paid rhedeg.

Mari yn ceisio cerdded i ffwrdd yn gyflym.

Linda: Pwy chi meddwl ydych chi? Sais ife?

Wasg 1: Mari – mae angen ateb arno ni nawr.

Wasg 2: Pwy sy'n gyfrifol am hwn?

Linda: Byddai byth yn rhedeg o atebolrwydd. Allai ateb dy cwestiynau os ydych chi eisiau?

Wasg 1: Ydy o'n wir fod Sian yw dy Fam? Cyfarwyddwyr yr Eiseddfod?

Pethau yn dechrau troi'n sur. Yr Wasg yn dechrau gofyn cwestiynau treiddgar.

Wasg 2: Siwr i fod ma Mam hi'n deimlo gywilydd.

Wasg 1: Nag wyt ti'n deimlo'n euog?

Mari: Beth?

Wasg 2: Ydych chi'n meddwl bod dy Fam yn deimlo cywilydd?

Mari: Esgusodwch fi?

Wasg 1: Nag wyt ti'n hollol embarassed? Ferch yr Gyfarwyddwyr ddim yn gwybod lle mae'r glefydd?

Mari: Stop.

Wasg 2: Hollol embarrassing.

Mari: Stop!

Wasg a Linda yn dechrau ailadrodd llinellau ac yn torri ar ddraws eu gilydd. Ynghanol yr Wasg yn gofyn cwestiynau, mae Mam Mari yn dechrau galw ei enw. Slow fade rhwng yr ddau. Mari yn dechrau fynd nôl yn amser yn yr sgwrs a'i Fam – yn teithio nôl i'r 'trauma' wnaeth hi sôn amdano yn Golygfa 1.

Mam Mari: Mari? Mari? Ti'n barod eto?

Mari: ...Mam?

Mam Mari: Gennym llefari yn hanner awr! Be sy'n cymryd mor hir?

Mari: Beth chi'n siarad amdano? Pam ydych chi yma?

Mam Mari: Be ti meddwl ti ddim am wneud o? Rhaid i ti cariad – rhaid cadw'r traddodiad.

Mari: Oce, haha – very funny. Dwi ddim am chwarae'r gêm yma. Wnaeth hwn digwydd pumtheg mlynedd yn ôl.

Mam Mari: Mari. Dwi ddim yn gofyn eto. Dere - NAWR!

Golau yn newid i llwyfan yr Eisteddfod. Spot (?) ar Mari

Dyn: Nesa i'r llwyfan yw Mari o Sir Gaerfyrddin!

Mari yn syllu ar yr gynulleidfa. Mae hi'n dechrau chwysu

Mari: (*i'w hunain*) Be ffwc...?

Mam Mari: Mari. Paid a chodi cywilydd arnai.

Mari: Yr wyau, gan Lloyd Williams.
Un bach, un mawr
Un yn disgyn ar y llawr
Un.... Un...

Mam Mari yn gwneud migmons i atgoffa Mari o'r adrodd. Mari yn cario ymlaen yn ceisio dilyn ei fam.

Mari: Un... Melyn... wy dwbwl
Rhaid... Rhaid

Mam Mari yn codi ar y llwyfan ac yn torri ar draws Mari.

Mam Mari: Ymddiheuriadau pawb – Mari fach ddim yn teimlo'n iawn heddiw. Dere 'mlaen Mari.

Embarrassing. Hollol embarrassing. Wyt ti byth yn meddwl sut mae hwn yn edrych arnai i? Ferch yr Gyfarwyddwyr yn methu neud blydi llefari.

Mari: O ni methu gofio'r geiriau – wnes i ddim wneud o ar bwrpas.

Mam Mari: Dwi ddim am glywed o. Paid becso, bydde ti byth yn gystadlu eto. Blydi embarassing.

Goleuadau yn 'snappo' nôl i'r gosodiadau wreiddiol. Wasg wedi diflannu erbyn hyn. Sefwch Linda, Glenys a Nerys, Mam Daf a Dyfrig yn cylch o gwmpas Mari.

Linda: Lle ma'r clefydd?

Mari: Linda, os o ni'n gwybod yr ateb i'r stupidest question known to history byddai'n dal yr blydi clefydd, na fyddai i?

Linda: Fyddwch.

Mari: A oes o ni'n gwybod pwy sy'n gael yr glefydd, byddai di siarad i nhw yn barod, na fyddai i?

Linda: Byddwch.

Mari: A os dwi ddim am wneud yr llefari, byddai ddim, na fyddai i?

Linda: Beth?

Mari yn sylweddoli beth mae hi wedi dweud ac yn ceisio wneud synwir.

Mari: Os di Branwen ddim am wneud yr unawd, falle jyst... gadael iddi hi ddim wneud yr unawd?

Linda: Sain credu bod hwn yn unrhyw poen i ti.

Mari: Deallt.

Linda: Actually, mae hwn yn broblem i ti. Mae nheulu i wedi bod yn cystadlu am flynyddoedd. Mae o'n traddodiad. Mae'r Gwyl yma yn sefyll am lot fwy 'na jyst rhedeg o gwmpas fel asyn yn trial sortio pob problem. Mae o amdano cystadlu. Mae'r Steddfod yn dod a phobol sydd yn siarad Gymraeg, a Gymraeg un unig, at ei gilydd i gystadlu. Mae hwn mor pwysig, yn enwedig dyddiau 'ma gyda arddegwyr yn joio Maes C mwy na'r rheswm ma' nhw actually fod bod 'ma. Mae pobol yn caru fod yn Gymraeg ac yn caru cystadlu, a ni fod yma i ddathlu hwnna ond ti di fod yn spoilio'r profiad. Ddyle dy Fam teimlo cywilydd efo'r waith wyt ti 'di neud 'ma.

Distawrwydd. Pawb yn aros am ymateb Mari, ond mae hi'n ddweud yn ysgafn:

Mari: Na, Linda, ddyle ti teimlo cywilydd. Dwi di neud popeth dwi'n gallu i wneud yn siwr bod popeth yn rhedeg yn iawn. Dwi'n cytuno, mae'r Steddfod yn dod a pobol Cymraeg at ei gilydd. A dwi ddim yn anghytuno fod cystadlu yn bwydig, ond ddim i pawb. Mae Nerys byth wedi cystadlu o'r blaen, o chi'n gwybod hwnna?

Linda: Na.

Mari: A wnaeth fy Mam cystadlu tan oedd hi'n tua 15, a wedyn penderfynu i cael break bach a wnaeth byth gorffen. Mae'r Steddfod llawn pobol sydd ddim yn gystadlu. Pobol Gymraeg sy'n becso fwy amdano'r ffaith bod ganddynt cyfle i wario amser gyda pobol ma nhw ddim ond yn weld unwaith yr flwyddyn. Glenys a Nerys, ma nhw di fod yn dod 'ma ers o nhw'n babis i helpi mas, a i mwynhau'r gwyl. Erin! Mae Erin yn ferch ifanc sy'n mwynhau ei hunain, yn Maes B neu yn yr cystadlu. Branwen, ferch ifanc sydd falle ddim yn mwynhau cystadlu ar y foment? Ond dyw hwn ddim yn meddwl bydd hi'n gallu wneud pethau massive, yn gwmws fel Mam! Does dim un ffordd i fod yn Gymraeg, Linda. Does ddim rhaid i bawb eisiau NEU caru cystadlu. Mae hwn yn siawns i pobol Gymraeg i fwynhau bod yn Gymraeg – ddim i gystadlu, ddim i ennill, ddim i golli, ond i fod yn Gymraeg. Dwi'n gwybod chi'n casau fi Linda, ond dwi'n trial yn really galed i wneud jobyn da, so please, allwn ni jyst trail mwynau hwn a ffindio'r blydi clefydd?

Saib

Linda: Ti'n iawn, Mari. I fod yn onest, dwi hefyd yn deimlo'r pwysau o fod yn Gymraeg. Dwi di cystadlu ers o ni'n bedwar. I gadw draddodiadu'r teulu yn fyw. Ond, mae'n anodd. A ti'n iawn – ddyle Branwen cael yr cyfle i fwynhau hwn.

Mam Daf yn troi at Glenys yn distaw a gofyn:

Mam Daf: Beth mae'r clefydd yn edrych fel te?

Glenys: Fel cyllell massif.

Mam Daf yn tynnu allan yr glefydd a dal e yn yr awyr.

Mam Daf: Oh Iesu, ife hwn o chi moyn? Sori! O ni jyst yn aros i fe sychu o'r rack.

Mari: Uhhh... Linda, ife hwn yw e?

DRAFFT TERFYNNOL:

Golygfa 17 – Cerrig Yr Orsedd

Linda a'r Wasg yn dilyn Mari allan o'r pafiliwn. Yn gweddi dros eu gilydd.

Linda: Dyna hi!

Wasg: Mari! Mari! Allwn ni jyst gofyn cwestiynau yn gloi? Lle mae'r gleddyf Mari? Pam wnes ti dwyn yr gleddyf, Mari? Pam wyt ti'n ceisio hijackio'r Steddfod?

Linda: Rhaid i ni gael ateb, Mari. Paid rhedeg.

Mari yn ceisio cerdded i ffwrdd yn gyflym.

Linda: Pwy chi meddwl ydych chi? Sais ia?

Wasg: Mari – mae angen ateb arno ni nawr. Pwy sy'n gyfrifol am hwn?

Linda: Alla i ateb dy cwestiynau os wyt ti isio?

Wasg: Ydy o'n wir mae Sian yw dy Fam? Cyfarwyddwyr yr Eisteddfod?

Pethau yn dechrau troi'n sur. Yr Wasg yn dechrau gofyn cwestiynau treiddgar.

Wasg: Siwr o fod mae Mam hi'n deimlo gywilydd. Nag wyt ti'n deimlo'n euog?

Mari: Beth?

Wasg: Nagwyt ti'n meddwl bod dy Fam yn deimlo cywilydd?

Mari: Esgusodwch fi?

Wasg: Nag wyt ti'n hollol embarassed? Ferch yr Gyfarwyddwyr ddim yn gwybod lle mae'r gleddyf?

Mari: Stop.

Wasg: Hollol embarrassing.

Mari: Stop!

Wasg a Linda yn dechrau ailadrodd llinellau ac yn torri ar ddraws eu gilydd. Ynghanol yr Wasg yn gofyn cwestiynau, mae Mam Mari yn dechrau galw ei enw. Slow fade rhwng yr ddau. Mari yn dechrau fynd nôl yn amser yn yr sgwrs a'i Fam – yn teithio nôl i'r 'trauma' wnaeth hi sôn amdano yn Golygfa 1.

Mam Mari: Mari? Mari? Ti'n barod eto?

Mari: ...Mam?

Mam Mari: Gennym llefari yn hanner awr! Be sy'n cymryd mor hir?

Mari: Beth chi'n siarad amdano? Pam chi yma?

Mam Mari: Be ti meddwl ti ddim am wneud o? Rhaid i ti cariad – rhaid cadw'r traddodiad.

Mari: Oce, haha – very funny. Dwi ddim am chwarae'r gêm yma. Wnaeth hwn digwydd deg mlynedd yn ôl.

Mam Mari: Mari. Dwi ddim yn gofyn eto. Dere - NAWR!

Golau yn newid i llwyfan yr Eisteddfod. Spot (?) ar Mari

Dyn: Nesa i'r llwyfan ar gyfer "'llyfaru o dan deuddeg' yw Mari o Sir Gaerfyrddin!

Mari yn syllu ar yr gynulleidfa. Mae hi'n dechrau chwysu

Mari: (i'w hunain) Be ffwc...?

Mam Mari: Mari. Paid a chodi cywilydd arnai.

Mari: Yr wyau, gan Lloyd Williams.
Un bach, un mawr
Un yn disgyn ar y llawr
Un.... Un...

Mam Mari yn gwneud migmons i atgoffa Mari o'r adrodd. Mari yn cario ymlaen yn ceisio dilyn ei fam.

Mari: Un... Melyn... wy dwbwl
Rhaid... Rhaid...(i'w Mam) Dwi ddim yn cofio'r geirie...

Mam Mari yn codi ar y llwyfan ac yn torri ar draws Mari.

Mam Mari: Ymddiheuriadau pawb – Mari fach ddim yn teimlo'n iawn heddiw. Dere 'mlaen Mari.

Embarrassing. Hollol embarrassing. Wyt ti byth yn meddwl sut mae hwn yn edrych arnai i? Merch y Prif Weithredwr yn methu neud blydi llefari.

Mari: O ni methu gofio'r geiriau – wnes i ddim wneud o ar bwrpas.

Mam Mari: Dwi ddim am glywed o. Paid becso, bydde ti byth yn gystadlu eto. Blydi embarassing.

Goleuadau yn 'snappo' nôl i'r gosodiadau wreiddiol. Wasg wedi diflannu erbyn hyn. Mae Linda yn cerdded mewn cylch o gwmpas Mari.

Linda: Lle ma'r gleddyf?

Mari: Linda, os o ni'n gwybod yr ateb i'r stupidest question known to history bydde'n i'n dal y blydi cleddyf, na fydde'n i?

Linda: Byddet.

Mari: Ac os o ni'n gwybod pwy odd da'r gleddyf, bydde'n i di siarad i nhw yn barod, na fydde'n i?

Linda: Byddet.

Mari: Ac os dwi ddim moen wneud y llefari, byddai ddim!

Linda: Beth?

Mari yn sylweddoli beth mae hi wedi dweud ac yn ceisio wneud synwir.

Mari: Os di Branwen ddim am wneud yr unawd, falle jyst... gadael iddi hi ddim wneud yr unawd?

Linda: Dwi ddim yn meddwl bod hynny'n unrhyw fusnes i ti.

Mari: Fair enough.

Linda: A deud y gwir, mae hwn yn fusnes i ti! Mae nheulu i wedi bod yn cystadlu am flynyddoedd. Mae o'n traddodiad. Mae'r Gwyl yma yn sefyll am lot fwy 'na jyst rhedeg o gwmpas fel asyn yn trial sortio pob problem. Mae'r traddodiad Eisteddfodol yn mynd mor bell yn ôl â 1176. Mae'n rhan o'n hanes ni. Mae'n dod a phobol sydd yn siarad Gymraeg, a Gymraeg yn unig, at ei gilydd i gystadlu. Achos dyna be da ni'r Cymry Cymraeg yn wneud – ry ni'n cystadlu yn yr Eisteddfod ond ti di ceisio sbwylio'r profiad. Ddyle dy Fam teimlo cywilydd efo'r gwaith ti 'di neud 'ma.

Distawrwydd. Pawb yn aros am ymateb Mari, ond mae hi'n ddweud yn ysgafn:

Mari: Na, Linda, ddyle *chi* teimlo cywilydd. Dwi di neud popeth dwi'n gallu i wneud yn siwr bod popeth yn rhedeg yn iawn. Dwi'n cytuno, mae'r Steddfod yn dod a pobol Cymraeg at ei gilydd. A dwi ddim yn anghytuno fod cystadlu yn bwysig, ond ddim i pawb. Mae'r Steddfod llawn pobol sydd ddim yn gystadlu: Glenys a Nerys, ma nhw bod yn dod 'ma ers o nhw'n ifanc i croeswi pawb i babell merched y wawr gyda dished a chacen ac i mwynhau'r ŵyl. Erin! Mae Erin yn ferch ifanc sy'n mwynhau ei hun, yn Maes B. Ac mae Carys, yn dod i bob Eisteddfod er mwyn gwario amser da'i theulu. Does dim rhaid cystadlu...neu defnyddio iaith perffaith...neu gwybod am bob darn o hanes am Gymru er mwyn fod yn Gymraeg. Does dim un ffordd i fod yn Gymraeg, Linda. Mae'r Eisteddfod yn siawns i ni i ddathlu hynna, i fwynhau bod yn Gymraeg – ddim i gystadlu, ddim i ennill, ddim i golli, ond i fod yn Gymraeg. Mae'r Eisteddfod yn...yn...wel mae'n blydi brilliant!

Steddfod, Reprise:

Linda: Steddfod
Ma popeth 'di newid mewn diwrnod
Ai hyn yw Cymreictod?
Dwi dal yn chwilio am undod

Mari: Linda
Fi jyst yn trial fy gora
Anghofia am fy treigladau
Da'n gilydd cyrrheaddwn y copa

Linda: Steddfod
Mari: Steddfod 'di llenwi yr gofod
Linda: Be am aros am wythnos?
Mari: Oh na, haha.
Linda+Mari: Does dim diflastod mewn undod

Mam Daf wedi cyrraedd yn ystod y gan. Mae hi yn tynnu allan yr glefydd a dal e yn yr awyr.

Mam Daf: Ife hwn o chi moen? Sori! O ni jyst yn aros i fe sychu o'r rack.

Mari: Uhhh... Linda, ife hwn yw e?

Linda: Ia!!! Beth oedd e'n neud ar y blydi drying rack?!

Mari: Linda, hefyd, a plis paid freako allan, ond dyw'r Archdderwyr ddim yma. (*yn ceisio stopio Linda o gorymateb*) Paid. O ni'n fynd i ofyn, chi'n meddwl chi'n up for it?

Linda: Mari, dwi ddim meddwl bod opsiwn eto ti fan hyn, a dwi'n credu bod pawb yn gwybod pwy yw'r person gore am yr jobyn.

Mari: Diolch, Linda. Mae hwn yn help massif.

Linda: Oh na cariad, ti o ni'n siarad amdan.

Mari: Fi? Oh, come off it. Byddai methu wneud hwnna.

Linda: Ti'n gallu wneud hyn. A, i fod yn onest, sdim lot o ddewis da ti. Rwan tyd, plis, cyn i fi gael blydi harten.

Pawb yn gadael ac yn wneud eu ffordd i'r seremoni.

YSGRIFENNU CANEUON EFO CHRIS FOSSEY

DRAFFT 1 CAN MARI – DWI YMA:

Mari: Gormod o lleisiau
Gormod o farnau
Gormod o bobol yn gofyn cwestiynau

Cymera anadl dofn
Fydd popeth yn gweithio mas
Rhaid fod yn eofn
Dwi yma am pwrpas
(*Yn ddangos ei rhwystredigaeth*) Toyota Yaris

Fydd well gen i fod yn y tŷ
Gyda John fach a'r ci,
Ond, lucky me (!) I'm here
(*Saib*) Dwi yma

Yn y lle dwi heb fod am oes
Heb Mam, unrhyw ffrindiau neu choice
Dwi eisiau dianc,
(*Yn trial odli*) Ond Lord knows that ship... has sank...?
(*Ochneidio*) Dwi yma.

Be dwi'n mynd i neud?
S'gen i ddim byd i ddweud
All rhywun fy helpi i?
Dwi ar ben fy hun...

Fydd well gen i fod yn y tŷ
Gyda John fach a'r ci,
Ond, beth allai wneud?
Dwi yma

Dwi yma
Dwi yma
S'dim clem gen i sut
(*Yn catsio'i hunan a sibrwd*) Be di fff... yw this shit?
(*Ochneidio*)
Ond dwi yma (!?)

Recordiad Drafft 1: https://youtu.be/UQ0fU8U7u_Y?si=lQ1Er2GHJZFBE5gp

DRAFFT TERFYNNOL:

Cân: Dwi yma.

Mari: Gormod o lleisiau
Gormod o farnau
Gormod o bobol yn gofyn cwestiynau

Cymera anadl dofn
Fydd popeth yn gweithio mas
Rhaid fod yn eofn

7

Dwi yma am pwrpas

Fydd well gen i fod yn y tŷ
Gyda John bach a'r ci,
Ond, lucky me (!) I'm here
(Saib) Dwi yma

Yn y lle dwi heb fod am oes
Heb Mam, unrhyw ffrindiau neu choice
Dwi eisiau dianc
Ond Lord knows that ship... has sank...?

Fydd well gen i fod yn y tŷ
Gyda John bach a'r ci,
Ond, lucky me (!) I'm here

Be dwi'n mynd i neud?
S'gen i ddim byd i ddweud
Mae pawb yma'n hollol wahanol I fi;
Gyda'u adrodd, Cymreigtod a'u "Li Li Li Li"

(Fal Di Ral Di
Li Li Li Li
Ah
Ni yw'r gwir Gymru)

Fydd well gen i fod yn y tŷ
Gyda John bach a'r ci,
Ond, lucky me (!) I'm here
(Saib)

Ti yma
Ti yma
Ti yma
Ti yma
Ti yma
Ti yma
(Ti yma) S'dim clem gen I sut
(Ti yma) Be fff...yw this shit?!

(Ti yma) Ond dwi yma.

Recordiad Drafft Terfynnol: https://youtu.be/uZ09H990DVQ?si=LHjGXwHnunv11TBH

<u>Ysgrifennu'r Can Diweddglo gyda Anna – Teimlad Nid Trwydded</u>

DRAFFT 1:

Can diweddglo:

Mam Daf:

(oh mari, paid teimlo fel hwna)

Pryd ma pethe'n galed

Tro at dy gymuned

Os ti'n teimlo fel ddieithryn

Cymreictod sy'n gyffredin...

Dyffrig & Erin:

Ma'n teimlad nid trwydded

Os ti heb bod i Lanbed

Byddwn yn agored

Chi dal yn Gymraeg

Linda:

Rhywbeth amdano'r Steddfod

Daf & Alys:

Cymreictod

Rhys:

Sdim rhaid i fod yn rock god

Er fi yw'r Top Dog

.... parchu a merched Cymru

Glenys & Nerys:

MYW

Mari:

Ma'n teimlad nid trwydded

Os dwi heb bod i Lanbed

Yn dweud panad neu paned

Yn hoffi dynion neu merched

Neu hyd yn oed defed

Byddwn yn agored

Chi dal yn Gymraeg

Llinell: Ddim yn gwybod wyddor Cymraeg

Llinell: Dwi heb dringo pen y fan

Llinell: Dwi'm yn siarad Cymraeg i Dad a Mam

Llinell: Dwi mond yn postio bara brith for the gram

Llinell: TYPE FI YDY HAM

(bons)

DRAFFT TERFYNNOL:

Glen&Ner:	Pryd ma pethe'n galed
	Tro at dy gymuned
	Os ti'n teimlo fel dieithryn
	Cymreictod sy'n gyffredin...
Mari:	Doedd dim gobaith gennyf i
Linda:	Nawr ti sy'n ffrind i mi
Mari a Linda:	Ei di fyth yn ddieithryn
Pawb:	Cariad sy'n gyffredin
G&N:	Ma'n deimlad nid trwydded
	Os ti heb bod i Lanbed
	Byddwn yn agored
	Ti dal yn Gymraeg
Pawb:	Ma'n deimlad nid trwydded
	Os ti heb bod i Lanbed
	Byddwn yn agored
	Ti dal yn Gymraeg
Dyfrig:	Dwi heb ddringo pen y fan
Mari:	Dwi'm yn siarad Cymraeg i Dad a Mam
Linda:	Dwi mond yn postio bara brith for the gram

Erin:	TYPE FI YDY HAM (bons)

Pawb yn siarad dros ei gilydd; Oh Erin, pam os rhaid i ni spoilio fe? Ayyb

Dyfrig:	Dwi'm yn hoffi gael cwtch a sain gwbo pam
Nerys:	Dwi ddim yn gwybod Calon Lân
Erin:	Dwi heb cerdded Caerdydd yn igam ogam
Glenys:	Dwi'm yn hoffi caws pob, dim ond jam.
Mari:	Dwi heb fod i Langrannog
Glenys:	Dwi'm yn ffycin gwbo lle ma Corwen na Carrog
Linda:	Well gen i pizza na gawl i de
Pawb:	Hey Mistar Urdd yn ei goch, gwyn a be?
Chris:	Be, be, be, be?!

Mari (yn torri ar draws):

	Ma'n deimlad nid trwydded
	Os ti heb bod i Lanbed
	Yn dweud panad neu paned
	Yn hoffi dynion neu merched
Dyfrig:	*Neu hyd yn oed defed*
	Byddwn yn agored
	Chi dal yn Gymraeg
	Chi dal yn Gymraeg
	Chi dal yn Gymraeg
Pawb:	*Steddfod*
	Allwch chi ddod am diwrnod
	Neu am yr holl wythnos
	Oh, dwi eisiau fo para pethefnos
	Steddfod
	Crwydro, sgwrsio a joio
	Gwario pres yn ddiachos
	Oh, does dim diflastod, mond undod
Mari:	*Ni dal yn Gymraeg*

Recordiad Drafft Terfynnol: https://youtu.be/6FBgRHGlgkE?si=sGI-yTA4ibDiiNfo

Darllen trwyddo'r script cyfan:



<u>YMARFERION EFO SARA LLOYD</u>

Gweithio ar golygfeydd:



Helpu Anna I chreu coreograffi ar gyfer Paned o De (fideo):

WYTHNOS YR SIOE

Lluniau o'r ymarfer cyntaf efo wisgoedd, set, golaiadau a cerddoriaeth y ddarn. Wnaeth hwn profi sut mae'r ffactorau yma yn gallu pwysleisio yr neges tu ôl yr sioe. Lluniau: Allsop, Nick (2023)



PROSES CREADIGOL

Trwy gydol y broses hon, fy nod oedd I ehangu fy hyder yn ysgrifenedig, gan nad wyf erioed wedi ysgrifennu ar gyfer perfformiad o'r blaen, a roedd hyn yn eithaf brawychus. Roeddwn i eisiau rhoi cynnig ar bopeth, ond roedd hwn yn profi i fod yn eithaf anodd i ddechrau, gan fod y syniad o rannu syniadau i bobl yn fy nychryn ychydig, ond trwy gydol y broses hon rwy'n teimlo fel bod fy hyder wedi datblygu'n sylweddol. Dyfyniad a helpodd fi i weithio trwyddo'r bloc hwn oedd: "Stripped to their essence, our multiple negative beliefs reveal a central negative belief: we must trade one good, beloved dream for another. In other words, if being an artist seems too good to be true to you, you will devise a price tag for it that strikes you as unpayable. Hence, you remain blocked." Cameron, Julia (1994)

Fel rhan o grŵp, rwy'n meddwl fy mod I wedi gweithio'n dda iawn gydag eraill; Roeddwn yn barchus, yn wydn ac yn ddeallus. Pan gafoedd golygfeydd neu gymeriadau ei thorri, roeddwn I yn hapus i wrando ar pobl a gwneud penderfyniad diduedd. Pan ofynnodd Llinos i mi ddatblygu gwaith pobol arall, byddwn bob amser yn sicrhau bod y person arall yn rhan o'r broses hon rywsut - byddwn yn gofyn am eu bwriadau ar gyfer yr olygfa, ac unrhyw beth y maen nhw'n meddwl sydd angen aros yn y sgript.

Rwy'n credu fy mod i wedi cyfrannu llawer at y broses yma yn bersonol. Yn ystod camau cychwynnol y broses, fe wnes i siarad lot am beth mae bod yn Gymraeg yn ei olygu i mi ym mhersonnol. Yn ystod trafodaeth am Gymreictod, wedes I nad oes un ffordd i fod yn Gymraeg - nad oes *binary*. Soniais hefyd sut mae fy mherthynas i gyda fy Nghymreictod yn ymddangos yn wahanol i pobol eraill yn y dosbarth, a sut mae hwn yn effeithio arnaf yn bersonol. Er bod pawb yn yr ystafell yn deall y wybodaeth yma, roeddwn i yn dal teimlo rhyw fath o ragfarn ar fy ngalluoedd, yn enwedig o ran darllen ac ysgrifennu. Roedd y teimlad yna o ddychryn a chael fy 'ngwneud yn llai na' yn cyfieithu llawer i'm cymeriad. Cafodd Mari ei hysgrifennu gyda'r teimladau a'r profiadau y gallaf uniaethu â - y teimlad o beidio bod yn ddigon Cymraeg. Daeth hyn wedyn yn ganolbwynt i'n sioe, ac fe wnes i sicrhau fy mod yn ymwneud yn gyson ag unrhyw sgwrs ynghylch sut y byddem yn portreadu ein Cymreictod yn ein darn, gan sicrhau bod fy llais, yr unig lais sy'n cynrychioli pobl fel fi yn yr ystafell, yn cael ei glywed. "I could write about the challenges of belonging to two sociolinguistic communities, and how sometimes the Welsh literary scene, particularly around eisteddfodau, felt like a game where no one explains the rules because they take for granted that you grew up knowing them." Roberts, Rebecca (2023)

Yn ystod y broses ysgrifennu, ymddiriedodd Llinos i mi ysgrifennu'r olygfa 'anoddaf' – Cerrig Yr Orsedd. Yn hyn, roedd yn rhaid i mi ddysgu sut i ysgrifennu'r golygfa trobwynt yn dda, ond hefyd dysgu sut I slotio'r olygfa hwn rhwng dwy olygfa a oedd wedi cwbwlhau yn baord. Roedd hyn yn golygu bod gen i lawer i'w ystyried, ond fe wnes i fwynhau yr her a dwi'n diolch i Llinos am ymddiried ynof gyda'r cyfrifoldeb hwnnw.

Ffordd arall y credaf fy mod wedi cyfrannu at y broses hon fydd yr faint o waith ysgrifenedig ac ymarferol rwyf wedi'i wneud. Tua diwedd y sesiynau efo Llinos, dim ond newidiadau bach roedd rhaid I mi wneud i'r gwaith roeddwn wedi'i gwblhau drwy gydol yr haf, a oeddwn I

gen yr amser i helpu eraill. Roeddwn i'n rhan o'r broses o 6 allan o'r 18 golygfa terfynnol roedd yn y sioe, sef un trydydd yr sioe I gyd.

Gwnes I gyfraniadau eraill i'r broses, trwy wneud llawer o awgrymiadau i'r golygfeydd â'r stori. Er enghraifft, daethom ar draws mater a oedd yn golygu efallai y bydd yn rhaid i ni addasu golygfa yn sylweddol. Yn lle newid y syniad o gael y Seremoni Cadeirio ar ddiwedd y sioe, awgrymais y gallem gynnwys y gynulleidfa i gael ein Haelodau'r Orsedd. Nodyn arall a awgrymais i i Sara (a Llinos) yw y gallai'r un person chwarae Linda a Mam Mari i ychwanegu haen arall o'n thema o berthnasoedd teuluol, ac i ddangos hefyd faint o bobl all droi i ymdebygu i'r traddodiadau a'u Cymreictod (yr tebygolrwydd rhwng Mari a Branwen).

Yn ystod y broses ymarfer, credaf fy mod wedi gwneud llawer o awgrymiadau llwyfannu / perfformio a ddefnyddiwyd yn y perfformiad terfynol. Awgrymais agweddau trechol y perfformiad, a llawer o ychwanegiadau bach eraill - fel helfa Cerrig Yr Orsedd, cynnwys Chris yn y gân olaf, a chael y gynulleidfa i deimlo fel petawn nhw'n rhan o'r sioe gyda ni. Rwy'n credu bod fy sgiliau datrys problemau, a sgiliau creadigol wir yn disgleirio yn ystod y prosiect yma.

Roedd y broses ymarfer yn anodd ar adegau, gan ei bod yn anodd i mi allu gollwng gafael ar gymeriadau yr ysgrifennais. Teimlais I fod yr fwriadau ac amcanion y cymeriadau gael eu newid. Roedd yn ymddangos bod fy syniadau cychwynnol ar gyfer fy nghymeriad, Mari, yn cael eu newid, ac weithiau roeddwn yn anghytuno â'r penderfyniadau hyn. Roeddwn yn cadw mewn cysylltiad cyson â Sara ynghylch fy nghymeriad, ac yn lleisio pan oeddwn yn anghytuno â'i dealltwriaeth o'r cymeriad. Yn aml, roeddwn i'n brwydro gyda fy hun rhwng bod yn awdur a bod yn actor, ac er i mi fwynhau creu a chwarae Mari'n fawr, roedd fy marn gref ar fy nghymeriad yn ei gwneud hi'n anodd iawn cymryd nodiadau weithiau. Roedd hon yn her newydd i mi, ac roeddwn i'n bersonol yn ei chael hi'n fuddiol iawn.

Gan ystyried bod llawer o safbwyntiau wahanol mewn un ystafell, roedd yr proses ychydig yn anoddch I lywio sgyrsiau gyda fy nghyfeillion. Unwaith eto, fe wnes i sicrhau fy mod yn cyfathrebu'n gyson â Sara â'r tîm ac yn mynegi sut roeddwn i'n teimlo. Cefais fy atgoffa o ddyfyniad a ddarllenais dros yr haf; "Mental decluttering is even better than physical decluttering because it doesn't stop at the bounds of a ceiling or wall." Knight, Sarah (2023) Gwnaeth y dyfyniad hwn i mi sylweddoli sut y gellir ei weithredu ym mhob ystyr – gan gynnwys ymarferion theatr.

I gloi, credaf yn bersonol fy mod wedi cyfrannu llawer o waith gwych i'r prosiect yma. Roeddwn i'n barchus, yn ddiduedd ac yn cael fy ngyrru drwyddi draw. Rwy'n credu bod fy hyder wedi datblygu drwy gydol y broses hon, ac rwy'n hapus iawn gyda'r canlyniad a'r cyfan rydw i wedi'i ddysgu. O ystyried y cyfle i wneud y prosiect hwn eto, byddai gen i'r hyder newydd a gefais ar gyfer ysgrifennu nawr ar y dechrau, gan fy mod wedi mwynhau'r broses hon yn fwy pan oeddwn wedi llwyr ollwng unrhyw ragfarnau rhagdybied.

1,157 o eiriau (125 yn dyfyniadau)

Llyfrythiaeth:

Wilson, David (2009), *Camrose, Pembrokeshire,* Ar gael: https://www.davidwilsonphotography.co.uk/product/camrose-pembrokeshire/, Cychwyd: 25.04.2023

Vogler, Christopher (1998) *The Writer's Journey, The Hero's Journey*, California: Michael Wiese Productions

BBC Cymru (2011) *Seremonîau'r Orsedd*, Ar gael: https://www.bbc.co.uk/programmes/p00jv6mt, Cyrchwyd: 07.06.2023

Allsop, Nick (2023) Lluniau Ymarferion o 'Mess ar y Maes'

Timbrell, Rebecca (2023) *Dwi Yma Drafft 1*, Ar gael: https://youtu.be/UQ0fU8U7u_Y?si=Z7Y4dUkWCg1m11E5, Cyrchwyd: 12.12.2023

Timbrell, Rebecca (2023) *Dwi Yma Drafft Terfynnol*, Ar gael: https://youtu.be/uZ09H990DVQ?si=f9XD222fsgFX-bmD, Cyrchwyd: 12.12.2023

Timbrell, Rebecca (2023) *Teimlad Nid Trwydded*, Ar Gael: https://youtu.be/6FBgRHGlgkE?si=sGI-yTA4ibDiiNfo, Cyrchwyd: 12.12.2023

Cameron, Julia (1994) *The Artist's Way: Your Enemy Within: Core Negative Beliefs*, England: Souvenir Press

Roberts, Rebecca (2023) Nation Cymru, *On Being a Writer in Wales: Rebecca Roberts*, Ar gael: https://nation.cymru/culture/on-being-a-writer-in-wales-rebecca-roberts/ Cyrchwyd: 12.12.2023

Knight, Sarah (2023) *The Life-Changing Magic of Not Giving a F*ck: The magic dramatically transforms your life,* London: Quercus